S4C /

# Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

**Pam ymuno â S4C?**

Yn S4C, rydyn ni’n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy’n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â’n tîm wrth i ni barhau i feithrin diwylliant gwaith sy’n rhoi pobl wrth galon y sefydliad. Rydyn ni'n chwilio am unigolyn arloesol, dynamig ac empathetig sy’n byw ein gwerthoedd craidd i ymuno â’r tîm Digidol fel Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol.

**Trosolwg y Swydd**

Mae S4C yn cyhoeddi cynnwys ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol gan gyrraedd cannoedd ar filoedd o bobl, yng Nghymru a thu hwnt. Mae presenoldeb S4C ar y llwyfannau yma yn allweddol er mwyn cyrraedd ac ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd. Gyda ffocws ar ddatblygu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â chynnwys sydd yn cyd-fynd â rhaglenni a chyfresi S4C, mae’n faes prysur, heriol a chyffrous.

Fel Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol, byddwch yn arwain tîm o swyddogion digidol ac yn gyfrifol am drefnu blaenoriaethau a llifoedd gwaith. Byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth siapio ein gweledigaeth a strategaethau digidol, gan sicrhau bod datblygiad cynnwys yn cydfynd â thueddiadau ac anghenion cynulleidfaoedd heddiw ac yn y dyfodol. Byddwch yn defnyddio data a mewnweledias arbenigol i ragweld newidiadau yn y tirlun, gan sicrhau bod S4C yn parhau i fod yn berthnasol ac ar gael ar blatfformau cyfoes. Mae hwn yn gyfle unigryw i yrru arloesedd, datblygu cynnwys gafaelgar, ac ehangu presenoldeb a brand S4C.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r tîm comisiynu i adnabod, datblygu a rhoi blaenoriaeth i gynnwys digidol yn gyntaf a digidol yn unig. Byddwch hefyd yn cydweithio gyda’r timau marchnata a chyfathrebu ar ymgyrchoedd hyrwyddo integredig. Bydd angen sicrhau trosolwg ar draws holl gynnwys digidol cyfresi ac is-frandiau S4C, ac yn cynghori a rhoi arweiniad i’r sector er mwyn sicrhau safon ac arloesedd yn y maes.

Mae’r rôl yn gofyn am sgiliau arwain a’r gallu i weithio'n gydweithredol ar draws adrannau S4C i sicrhau bod ein cynnwys yn parhau i fod yn flaenllaw tra’n cadw at ein gwerthoedd craidd a’n goblygiadau gwasanaeth cyhoeddus.

Yn y rôl hon byddwch yn cefnogi ac yn dirprwyo i’r Pennaeth Digidol a Ffrydio wrth i chi ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli, arwain a strategol.

**Beth fyddwch chi’n ei wneud?**

- Cefnogi a gweithredu strategaeth cynnwys digidol sy'n cyd-fynd â nodau a gwerthoedd S4C, gan sicrhau ei bod yn cysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol ar draws platfformau digidol gwahanol.
- Gweithio gydag adrannau perthnasol S4C i greu cynnwys “Digidol yn gyntaf” a sicrhau ymgyrchoedd digidol llwyddiannus gan ddiffinio beth yw llwyddiant.
- Hybu cydweithrediad rhwng timau golygyddol, technegol, hyrwyddo a chreadigol i gyflwyno cynnwys o ansawdd uchel sy'n ymgysylltu â'r gynulleidfa.

- Datblygu a chynnig syniadau digidol yn gyntaf a rhoi arweiniad i'r tîm comisiynu wrth ddatblygu cynnwys, gan sicrhau ei fod yn cwrdd â safonau golygyddol uchel ac yn cadw at ganllawiau a brand S4C.
- Cydweithio ar draws adrannau gwahanol i sicrhau integreiddio strategaethau a blaenoriaethau S4C.
- Dadansoddi, cwestiynu ac addasu llifoedd gwaith cynnwys cyfryngau cymdeithasol, yn fewnol ac yn allanol gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol.
- Cydweithio'n agos iawn gyda'r Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol gan gynllunio, oruchwylio a chefnogi gwaith a blaenoriaethau y tîm digidol.
- Arwain ar y weledigaeth ddigidol ar gyfer is-frandiau S4C (e.e. Hansh, Cyw, Chwaraeon) gan gydlynu rhwng cyflenwyr S4C, Comisiynu, Marchnata a'r swyddogion digidol er mwyn sicrhau llwyddiant y cynnwys.
- Cefnogi gyda'r cynllunio a darparu cynnwys ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol nodedig.
- Arbenigo ar y platfformau digidol ac arwain ar y cynnal a chadw o gyfrifon digidol S4C, gan fod yn bwynt cyswllt i'r sector.
- Cynghori timau eraill o fewn S4C ar arfer dda fel pwynt cyswllt a bwydo mewn i drafodaethau penodol ar draws S4C sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol.
- Arwain ar fentrau arloesedd digidol gan hyrwyddo arbrofi gyda fformatau newydd, megis cynnwys rhyngweithiol, 'vodcasts', a darllediadau byw.
- Cyfrannu at werthuso ac adrodd ar berfformiad cynnwys digidol S4C ar draws platfformau.
- Sicrhau ymwybyddiaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes drwy fynychu digwyddiadau ac ymchwil annibynnol gan rannu'r diweddariadau yn ôl i gydweithwyr yn S4C a chwmnïau annibynnol.
- Cynghori timau eraill o fewn S4C ar arfer dda fel pwynt cyswllt cyntaf (gan gynnwys y tîm Newyddion Digidol a Gwifren) a bwydo mewn i drafodaethau penodol ar draws S4C sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol.
- Cymeradwyo asesiadau risg pan fo angen.
- Cyfrannu at y gwaith o adrodd ar ddefnydd o ddeunydd trydydd parti ar blatfformau digidol (megis cerddoriaeth fasnachol) i'r asiantaethau priodol.
- Ymgymryd ag unrhyw waith neu cyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd.

**Fel Arweinydd byddwch yn:**

Byw a hybu gwerthoedd S4C sef:

1. **Ar Dy Orau**
   Annog ein gilydd i dyfu, datblygu a chyflawni'n llawn ac yn cefnogi'n gilydd i fod yn rhagweithiol, cymhelliol ac ymroddedig.

2. **Balch o S4C**
   Credu yn genhadaeth S4C, bod yn falch o'r llwyfan rydym yn ei ddarparu i'r Gymraeg a'i Diwylliant a hyrwyddo'r sianel a'r gwaith rydym yn ei wneud.

3. **Dathlu Pawb**
   Gwerthfawrogi amrywiaeth a cheisio creu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi ac yn ymfalchïo yn llwyddiant ein staff .

4. **Cer Amdani**
   Bod yn ddewr, yn greadigol ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd, ac yn benderfynol o wneud gwahaniaeth i'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau.

S4C /

- Sicrhau bod cyflawni blaenoriaethau strategol S4C yn ganolog i waith y tîm.
- Arwain ac ysgogi tîm, gan ddarparu cyfeiriad, amcanion clir ac adborth adeiladol ac ystyrlon.
- Cyfathrebu yn effeithiol a gweithio'n agos gyda'ch cydweithwyr ac eraill i sicrhau ein bod yn gwireddu ein hamcanion corfforaethol a rhagoriaeth greadigol gan sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol â'n hymrwymiadau strategol.
- Adolygu a monitro'r gwaith a gwirio ei ansawdd, gan sicrhau targedau ac arweiniad clir, ac yn cynnig cefnogaeth bwrpasol er mwyn sicrhau safon a datblygiad perfformiad.
- Creu amgylchedd sy'n cefnogi perfformiad uchel, arloesedd, cydweithio, llesiant, datblygiad, ymgysylltu a grymuso staff.
- Arwain ar gwelliant parhaus y tîm.
- Sicrhau llesiant y staff sydd dan eich goruchwyliaeth, yn cymryd cyngor pwrpasol gan eich rheolwr llinell neu yr Adran Pobl a Diwylliant yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod y staff o dan eich goruchwyliaeth yn gweithio bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau S4C, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data, Cyllid, Rheoli Risg, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a materion cyflogaeth.
- Byw a hyrwyddo gwerthoedd S4C.
- Cynrychioli S4C mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau allanol yn ôl yr angen a gweithredu fel ei lysgenhadwr.
- Dirprwyo ar ran eich Rheolwr Llinell yn ei (h)absenoldeb neu fel bo'n ofynnol yn y meysydd sy'n gysylltiedig a'ch gwaith chi.

**Ymagwedd Broffesiynol a Chydweithredol**

- Gweithio'n gadarnhaol ar draws y sefydliad.
- Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau S4C, gan gynnwys iechyd a diogelwch, amrywiaeth, a diogelu data.
- Bod yn rhagweithiol gyda'ch rheolwr llinell i fonitro a datblygu'ch perfformiad eich hun.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Mae gennych dealltwriaeth ddwfn o gyfryngau cymdeithasol a digidol.
- Ydych chi'n mwynhau newid trawsnewidiol a chwilio am ffyrdd arloesol i weithredu.
- Gallwch weithio'n annibynnol gyda rhyddid i neud penderfyniadau ond hefyd yn mwynhau cydweithio gyda tîm ehangach i rannu syniadau.
- Byddwch yn mesur ac adrodd ar berfformiad gan gynnwys ymddygiadau'r gynulleidfa.

- Eich bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfoes ym maes y cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau gwylio cynnwys.
- Ydych chi'n gyfathrebwr cryf yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig – cymorth gloywi iaith ar gael).

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau perthnasol, hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch a tecwyn.davies@s4c.cymru.

Yn eich cais, sicrhewch eich bod yn amlygu'r sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

## Manyleb Personol

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig. | |
| **Cymwysterau** | Gradd neu cymhwyster cyfatebol | |
| **Profiad** | Arwain tîm a rheoli pobl.<br><br>Dealltwriaeth o gynhyrchu cynnwys cymdeithasol a digidol , o gysyniad i gyflwyno.<br><br>Profiad o reoli cyfrifon digidol a chalendrau cynnwys a'r gallu i fonitro ac adrodd ar berfformiad i lywio penderfyniadau.<br><br>Profiad o ysgrifennu a chreu cynnwys digidol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ac o fewn canllawiau penodol.<br><br>Profiad o ddefnyddio offer a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnata | Profiad o reoli ac optimeiddio ymgyrchoedd digidol gan ddefnyddio chwiliad taledig a chyfryngau cymdeithasol taledig.<br><br>Profiad o helpu gyda datblygiad, gweithrediad a gwerthusiad effeithiol o ymgyrchoedd digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | digidol, technegau hyrwyddo a defnyddio offer dadansoddol.<br><br>Yn meddu ar ddeallusrwydd cryf o gynulleidfaoedd S4C, strategaeth cynnwys S4C a'r cyd-destun mae'n gweithredu oddi fewn iddo.<br><br>Cefnogi unigolion i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.<br><br>Gweithio o fewn tîm yn llwyddiannus. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol.<br><br>Sgiliau adnabod a chreu cynnwys digidol gafaelgar a pherthnasol.<br><br>Dealltwriaeth o systemau rheoli cynnwys e.e. Meta Business Suite, YouTube Studio, systemau ac adnoddau dadansoddi (ee Google analytics, Sprout Social ayyb), ac optimeiddio peiriannau chwilio.<br><br>Gwybodaeth ar y Sector Darlledu/Creadigol a'r fframwaith polisi a gwleidyddol mewn perthynas â'r diwydiannau creadigol. Dealltwriaeth gadarn o egwyddorion cyfathrebu digidol effeithiol.<br><br>Sgiliau trefnu a chydgysylltu rhagorol gyda'r gallu i weithio i ddyddiadau tynn.<br><br>Gweithio'n dda fel aelod o dîm gydag agwedd ragweithiol a'r gallu i gymryd yr awenau ac arwain gweithwyr.<br><br>Gallu gweithio'n annibynnol ac ar eich liwt eich hun, gyda sgiliau blaenoriaethu a threfnu rhagorol.<br><br>Sgiliau adnabod cynulleidfa a'r gallu i asesu data cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd.<br><br>Yn ogystal a cael llygad ar gyfer dylunio, y gallu i ysgrifennu yn greadigol a chywir mewn modd sy'n gallu ymgysylltu a denu cynulleidfa darged a meddu ar sgiliau golygyddol cryf. | Gwybodaeth ar y Sector Darlledu/Creadigol a'r fframwaith polisi a gwleidyddol mewn perthynas â'r diwydiannau creadigol.<br><br>Dealltwriaeth gadarn o egwyddorion cyfathrebu digidol effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y gallu i ymchwilio, nodi a dadansoddi ystadegau ac adroddiadau, asesu'r risg, ansawdd, a pharatoi barn ac arweiniad broffesiynol.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol rhagorol gyda'r gallu i greu perthnasoedd cadarnhaol gydag ystod o staff a rhanddeiliaid er mwyn cyflawni a datblygu y gwasanaeth.<br><br>Gwybodaeth am werthoedd a rheoliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.<br><br>Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r gallu i ymateb i ymholiadau gan amrywiaeth o ddefnyddwyr. (Mae cymorth datblygu sgiliau ysgrifennu a gloywi iaith ar gael).<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith amrywiol â therfynau amser sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. | |
| **Nodweddion Personol** | Gallu cymell eich hun, gyda'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth.<br><br>Datryswr problemau.<br><br>Gallu dangos empathi.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

**Manylion eraill**

**Lleoliad:** Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 diwrnod mewn swyddfa)

**Cyflog:** £49,500 y flwyddyn

**Cytundeb:** Parhaol

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 3 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

S4C /

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Teithio:** Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar ddydd Llun 11 Mai 2026** at Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.